

Est. 2001



Torfaen Business Voice

Llais Busnes Torfaen

# Dathlu 21 o Flynyddoedd o Gysylltiadau Busnes

## MAI 2022

---

**Digwyddiad Nesaf:  
Mehefin 23ain, 4.30pm**



<http://bit.ly/twitter-TorfaenBizCymru>



<http://bit.ly/Facebook-TorfaenBiz>



<http://bit.ly/youtube-TorfaenBiz>

## TUDALEN 3

21 o flynyddoedd i Llais Busnes Torfaen

## TUDALEN 5

Cyfle olaf i elwa o gyfleoedd i'ch busnes wedi'u hariannu yn llawn

## TUDALEN 6

Ydych Chi'n Ystyried Lleoli'ch Busnes Yng Nghanol Pont-Y-Pwl Neu Flaenafon?

## TUDALEN 7

Busnesau sy'n manteisio ar ddigidol yn perfformio'n well na'r gweddill

## DOD YN AELOD

### MAWRTH

Su	Li	Ma	Me	Ia	Gw	Sa
			1	2	3	4
5	6	7	8	9	10	11
12	13	14	15	16	17	18
19	20	21	22	23	24	25
26	27	28	29	30		

### MEHEFIN

Su	Li	Ma	Me	Ia	Gw	Sa
				1	2	3
4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17
18	19	20	21	22	23	24
25	26	27	28	29	30	

### MEDI

Su	Li	Ma	Me	Ia	Gw	Sa
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30			

# NODIADAU'R CADEIRYDD

Mae wedi bod yn ddechrau llwyddiannus i Llais Busnes Torfaen, gydag aelodau'n adnewyddu a busnesau newydd yn cymryd y cyfle i ymuno. Roedd ein cyfarfod cyntaf yn Pages yn un da, yn enwedig gan ein bod oll yn gallu bod yn yr un ystafell. Roedd yn dda gweld pawb yn ailgysylltu gyda'u cysylltiadau busnes mewn awyrgylch braf i gael syniadau newydd.

**Gan ei bod yn ben-blwydd Llais Busnes Torfaen yn 21, bydd ein cyfarfod ym mis Mehefin yn ddathliad o'n clwb busnes lleol a'r busnesau sydd wedi elwa dros y blynyddoedd o fod yn rhan o rwydwaith cymorth mwy.**

Bydd cyfarfod 23ain Mehefin yn y babell yng ngerddi Clwb Golff Dôl Werdd ac mae'n addo bod yn brynhawn a noswaith llawn o rwydweithio, gyda mochyn rhost ac adloniant.

Ni allai fod yn amser gwell i ail-ymuno neu ymuno o'r newydd ar gyfer yr hyn a fydd, rydym yn sir, yn ddigwyddiad bywiog a hwyliog.



**Ashley Harkus**

Cadeirydd, Llais Busnes Torfaen

## BYDDWCH YN RHAN O'R CLWB! Aelodaeth o £48 y flwyddyn am y buddion i gyd!

### Beth sy'n rhan o'ch Aelodaeth Hollgynhwysol:

- Lle yn ein cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein i gyd
- Cylchlythyr digidol chwarterol gydag erthyglau, cyngor a digwyddiadau busnes yn ogystal â gwybodaeth wedi ei theilwra i fusnesau lleol Torfaen. Y Cylchlythyr diweddaraf
- Cyfleoedd amrywiol i rwydweithio
- Bwletin trwy e-bost, gyda gwybodaeth berthnasol wedi'i chwynnu

- Rhag-rybyudd ynghylch cyfleoedd a digwyddiadau busnes eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, gan gynnwys brecwastau busnes, gweithdai a seminarau
- Hysbysebu manylion eich cwmni yn adran Aelodaeth Llais Busnes Gweler ein rhestr aelodau presennol **yma**.
- Cyfleoedd noddi a hysbysebu egsgliwsif i gwmnïau sy'n aelodau gyrraedd y farchnad busnes leol

### Cofrestrwch ac ymunwch heddiw!



# 21 O FLYNYDDOEDD I LAIS BUSNES TORFAEN

Llais Busnes Torfaen yw clwb busnes ffyniannus Torfaen, a sefydlwyd yn 2001. Dros y ddau degawd diwethaf, mae wedi cyffwrdd llawer o fusnesau lleol, gan wneud gwahaniaeth i unigolion sydd eisiau cychwyn busnes a busnesau sydd wedi eu hen sefydlu, sydd eisiau gwneud cysylltiadau a chynhyrchu gwerthiannau.

Mae cannoedd o fusnesau wedi ymuno dros y blynyddoedd, o amrywiaeth eang o sectorau, o argraffwyr i arlwywyr, dylunwyr gwe i gynghorwyr adnoddau dynol, ac mae'r clwb yn parhau i gefnogi'r economi lleol, flwyddyn ar ôl blwyddyn.


Caiff y clwb ei redeg gan bwyllgor o bobl busnes lleol, sy'n rhan annatod o'i lwyddiant. Mae'r aelodau hyn yn awyddus i wneud gwahaniaeth a llywio'r clwb mewn cyfeiriad a benderfynir ganddyn nhw. Gan weithredu mewn rôl cwbl wirfoddol, mae'r clwb yn ddiolchgar am yr ymroddiad a'r egni a ddangosir gan aelodau'r pwyllgor, yn y gorffennol a nawr.

**Bydd ein cyfarfod ar 23ain Mehefin yng Nghlwb Golff Dôl Werdd** (pabell yn yr awyr agored) yn dathlu cefnogaeth gref a pharhaus y clwb i'r economi lleol. Bydd yna'r rhwydweithio arferol wedi'i hwyluso ac yna mochyn rhost ac adloniant gyda'r nos.

Os nad ydych eto wedi adnewyddu, neu os ydych wedi bod yn ystyried ymuno, nawr yw'r amser gorau i ddod yn aelod. Bydd cymaint o lwybrau gwahanol a fydd o fudd i'ch busnes mewn awyrgylch cyfeillgar, cefnogol.

**Dim ffioedd ychwanegol. Tâl unwaith ac am byth o £48.00 i aelodau newydd, ac mae'r tâl adnewyddu yn cychwyn o £60.00 am y cyfan o 2022.**

Dewch i **ymuno â ni** ar gyfer yr hyn a fydd yn sir o fod yn noson ragorol.



2001

2011

2021



# SGAMIAU ANFONEBU

**Busnesau'n cael eu rhybuddio i fod yn wylidwrus wrth dalu biliau neu newid cyflenwyr wrth i sgamiau anfonebu ffurfio hyd at 55 y cant o'r arian a gollir i sgamwyr**



• Mae bron i nawym mhob deg (85 y cant) o berchnogion busnes yn poeni am effaith y cynnydd mewn prisiau sydd ar ddod ar eu busnesau, a allai eu gadael yn agored i sgamiau anfonebu wrth iddynt chwilio am y bargeinion gorau

• Mae Barclays yn annog busnesau i fod yn wylidwrus wrth i ddata ddangos bod sgamiau anfonebu yn cyfrif am 55 y cant o'r holl arian y mae busnesau bach yn ei gollu i sgamwyr<sup>1</sup>

• Mae data Barclays hefyd wedi dangos bod gwerth yr arian sy'n cael ei ddwyn ar gyfartaledd wedi codi i 13 y cant

**06/04/22:** Mae busnesau'n cael eu hannog i aros yn wylidwrus wrth dalu biliau neu newid cyflenwyr, gan fod data<sup>1</sup> newydd gan Barclays yn dangos bod twyllwyr, yn y tri mis diwethaf, wedi dwyn y rhan fwyaf o arian gan BBaCh drwy sgamiau anfonebu.

Sgam anfonebu yw pan fod twyllwyr yn gwyro anfonebau go iawn neu gyfarwyddiadau talu a anfonir drwy ebost, yn aml gan gyflenwr neu gysylltiad cyfarwydd, ac anfon ebost tebyg gyda'r manylion banc wedi eu newid i gyfrif a reolir ganddyn nhw. Mae data Barclays wedi dangos bod y math hwn o sgam yn cyfrif am 55 y cant o'r holl arian a gollwyd gan gleientiaid BBaCh yn y tri mis diwethaf, i fyny chwech y cant flwyddyn ar ôl blwyddyn. gyda cholled ar gyfartaledd o £2,100.

Mae'r cyfanswm sydd wedi ei ddwyn gan BBaCh wedi mynd i fyny 13 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf y ffaith bod y nifer wedi mynd i lawr, sy'n


awgrymu bod sgamwyr yn llwyddo gyda nifer lai o sgamiau gwerth uwch, ac mae perchnogion busnes mewn perygl o weld colledion uwch.

Mae pŵl o fusnesau y DU yn ddiweddar<sup>2</sup> yn dangos bod 85 y cant y poeni am effaith y cynnydd mewn prisiau sydd ar ddod, a chostau gweithredu uwch, yn eu cael ar eu busnes. Mae mwy na hanner (56 y cant) wedi dweud y bydd yn cael effaith ar eu llinell isaf.

Dywedodd bron i 9 ym mhob 10 (85 y cant) y byddent yn barod i newid i gyflenwr nad oeddynt wedi clywed amdano o'r blaen os oeddynt yn cynnig pris gwell. Mae Barclays yn rhybuddio perchnogion busnes i fod yn ofalus wrth iddynt newid cyflenwyr i gael y fargen orau, gan y gall twyllwyr ddynwared cyflenwyr a darparu manylion banc neu wybodaeth ar gyfer talu sydd wedi eu diweddarau.

Er bod sgamiau anfonebu wedi bod y mwyaf proffidiol i sgamwyr yn y tri mis diwethaf, sgamiau prynu, lle mae busnesau'n prynu eitemau nad ydynt yn cyrraedd, oedd y math mwyaf cyffredin. Yn ail i hyn oedd sgamiau dynwared, lle mae twyllwyr yn cymryd arnynt eu bod o sefydliadau yr ymddiriedir ynddyn nhw.

Meddai Ben Lebus, sylfaenydd gwefan ryseitiai iach **Mob Kitchen**, "Fel perchennog busnes fy hun, rwy'n deall y pwysau o redeg cwmni. Yn gyffredinol, rydych yn ceisio arbed ar gostau lle bynnag a phryd bynnag y bo modd. Yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gall deimlo bod pob gwariant yn anodd ei reoli, ond mae'n bwysig aros yn wylidwrus wrth feddwl am newid cyflenwyr neu ddarparwyr.



**MAE'R CYFANSWM SYDD WEDI EI DDWYN**

**GAN BBACH WEDI MYND I FYNFY 13 Y CANT**

**DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF**

Bydd treulio amser ychwanegol yn ymchwilio ar y cychwyn yn arbed amser ac arian i chi yn y pen draw. Rwyf bob amser yn ofalus wrth gymryd penderfyniadau mawr a fydd yn penderfynu dyfodol y busnes, ac rwyf yr un mor ofalus wrth gymryd penderfyniadau llai ynglŷn â gwario.”

Dyweddodd Joe Cooksey, Pennaeth Addysg Ddigidol Busnes gyda Barclays: “Mae busnesau dan bwysau anferth ar y funud wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd a mordwyo’r heriau ychwanegol sy’n dod gyda chostau yn codi. Rydym yn gwybod y bydd twyllwyr yn ceisio manteisio ar berchnogion busnes prysur a byddant yn cynyddu eu hymdrechion.

Mae sgamwyr mewn gwirionedd yn beirianwyr cymdeithasol galluog iawn, felly mae’n hanfodol bod perchnogion busnes a’u staff yn aros yn ofalus ac, os oes unrhyw amheuaeth, gwirio gyda’u banc neu ffynhonnell y maent yn gwybod ei bod yn un go iawn.” Mae Barclays wedi darparu rhestr wirio o’r pethau allweddol i’w hystyried mewn sgamiau anfonebu cyffredin:

**1. Gwneud eich gwaith ymchwil** – Pan fyddwch yn ystyried cyflenwr newydd neu brynu gan werthwr newydd, gwnewch yn sir eich bod yn gwneud yr archwiliadau cefndir perthnasol. Dangosodd ein hymchwil ni bod 57% cant o fusnesau yn arolygu argostau

nawr ac yn y man drwy gydol y flwyddyn wrth iddynt geisio cadw costau i lawr. Wrth ystyried cyflenwr newydd, cofiwch – os yw bargaen yn ymddangos yn rhy dda i fod yn un gwirioneddol, yna, mwy na thebyg, mae hi.

**2. Adnabod eich cyflenwyr** – Gall fod yn anodd sylwi ar ebstiau neu anfonebau wedi eu newid, yn enwedig os daw gan gyflenwr cyfarwydd. Gall ffonio eich cyflenwr i wirio unrhyw fanylion banc newydd neu wedi’i diweddarau stopio eich busnes rhag cael ei sgamio. Fodd bynnag, chwiliwch am y rhif gyda chwiliad rhyngwyrdd ar wahân bob amser, neu eich cofnodion eich hyn i wneud yn sir ei fod yn gywir. Dangosodd eich hymchwil ni bod 14% o fusnesau yn ffonio’r rhif ar yr anfoneb i gadarnhau, sy’n golygu eich bod yn syrthio i ddwylo’r sgamiwr.

**3. Dolennau ac atodiadau** – Os cewch neges neu ebost annisgwyl yn gofyn i chi ddilyn dolen neu agor atodiad, defnyddiwch dull gwahanol i wirio hyn cyn gwneud unrhyw beth. Dangosodd ein gwaith ymchwil ni bod bron i un ym mhob pump (19%) yn agor atodiadau cyn darllen yr ebost, sydd unwaith eto yn eu gadael yn agored i gael eu targedu.”

I gael rhagor o wybodaeth ar sut i gadw eich busnes yn ddiogel rhag twyll, neu i gael gwybod mwy am sut y mae Barclays yn cefnogi busnesau bach, ewch i **Barclays Business Health Hub**.

# CYFLE OLAF I ELWA O GYFLEOEDD I’CH BUSNES WEDI’U HARIANNU YN LLAWN

Mae sefydliadau ledled Torfaen a de Cymru yn ehangach yn cael eu hannog i fanteisio ar gymorth busnes wedi’i ariannu yn llawn a rhaglen datblygu gyrfa i staff sy’n fenywod – sy’n dod i ben yn fuan.

Mae Rhaglen Fusnes Chwarae Teg yn agored i BBaCh sy’n chwilio am gymorth gyda gweithdrefnau recriwtio, cadw a datblygu staff i sicrhau eu bod wedi eu canoli o amgylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae’r rhaglen yn cynnwys Chwarae Teg yn gweithio gyda BBaCh dros naw mis i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu, gyda hyd at 42 awr o gymorth gan y tîm o arbenigwyr. Mae gweithwyr cleient hefyd yn gallu cael mynediad at weithdai hyfforddi perthnasol ar arferion gorau mewn meysydd allweddol.

Mae Chwarae Teg hefyd yn rhedeg Rhaglen Datblygu Gyrfa i fenywod cymwys sydd hyd yma wedi helpu miloedd i gyflawni eu hachrediad Lefel 2 ILM, tyfu mewn hyder a chael sgiliau rheoli. Sefydlwyd y rhaglen a’i dylunio i wella cynrychiolaeth menywod ar lefel reoli

ledled Cymru, a hyd yma mae wedi cael canlyniadau positif dros ben.

Mae’r ddwy raglen yn rhan o gynnydd Cenedl Hyblyg 2 a ariennir yn llawr drwy’r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae’r cyllid yn dod i ben yn fuan, felly i osgoi cael eich siomi, cysylltwch gyda Leigh Beere

**Leigh.Beere@ChwaraeTeg.com** neu **07776 596126**. Neu, gallwch gael gwybod mwy am y **Rhaglen Fusnes** neu **Raglen Datblygu Gyrfa Menywod**

**Chwarae Teg** | **AGILE NATION2**



# YR HYN A WNAWN



Mae'r Prentis yn cyflogi prentisiaid ar draws y diwydiant, gan roi cyfle iddyn nhw gael profiad wrth weithio tuag at Fframwaith prentisiaeth. Drwy weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid o ansawdd uchel, mae'r cynllun yn bodloni'r anghenion a'r heriau sgiliau nawr ac at y dyfodol. Drwy gronni cyfleoedd gwaith mwy byr dymor drwy amrediad eang o gontractwyr, mae'r Prentis yn cyflenwi prentisiaethau cynaliadwy. Ni fyddai'r prentisiaethau hyn yn cael eu defnyddio heb gydweithrediad partneriaid. Gwerth ychwanegol y model yw ei fod yn darparu prentisiaethau gyda phrofiad gwaith amrywiol gyda mwy nag un cwmni Partner.

Mae'r Prentis mewn sefyllfa unigryw i gael y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer cyfranogwyr Rhannu Prentisiaeth ynghyd â chynnig cymorth i fusnesau bach i gyfalafu ar ddangos gwerth cymdeithasol drwy gyflogaeth gynhyrchiol.

Mae'r cynllun yn talu'r holl gostau ac adnoddau traddodiadol sydd eu hangen wrth gyflogi prentis, gan gynnwys:

- Recriwtio a phrosesu
- AD a Chyflogres
- Pecyn gwerth mwy na £200

Yr unig gost i'r cwmni yw cyflog y prentis, a ffi wythnosol o £32.

Efallai nad oes gan gwmnïau ddilyniant gwaith i gyflogi prentis mewn rôl benodol am brentisiaeth lawn tair blynedd. Mae'r model rhannu yn rhoi'r hyblygrwydd i gontractwyr ddewis pa mor hir y maent eisiau cyflogi prentis, heb orfod ymrwymo i dymor llawn. Gall lleoliadau fod am gyfnod o ddeg wythnos ar y lleiaf i dair blynedd ar y mwyaf.

Mae natur symudol rhai sectorau a chontractau dros dro yn golygu bod y model rhannu yn becyn amhrisiadwy i gynorthwyo gyda chael cyfleoedd i brentisiaid na fyddai'n digwydd drwy ddefnyddio'r dull prentisiaeth traddodiadol. Nid yw contractwyr a'u cadwyni cyflenwi yn ystyried cymryd prentisiaid o'u hardal oherwydd natur fyrdymor y gwaith. Os ydynt yn penderfynu gwneud hynny, byddai prentisiaid yn cael eu gadael ar ddiwedd y cyfnod neu'r cyfnodau neu, ar y gorau, yn gorfod teithio pellter afresymol i'r contract nesaf. Mae'r Prentis yn gweithio i sicrhau nad yw hyn yn digwydd drwy ddarparu prentisiaethau cynaliadwy sy'n golygu "Swyddi gwell yn agos at adref".

Eisiau gwybod mwy am Y Prentis? Edrychwch ar ein gwefan newydd sbon yn: [www.yprentis.co.uk](http://www.yprentis.co.uk), ebost: [darryl.williams@yprentis.co.uk](mailto:darryl.williams@yprentis.co.uk), ffôn: **01495 745913** I gael yr holl newyddion diweddaraf gan Y Prentis cofrestrwch i dderbyn [ein e-gylchlythyr](#).

## YDY'CH BUSNES YM MHONT-Y-PŴL NEU FLAENAFON?

Gallech fod yn gymwys ar gyfer hyd at £300 i wario ar farchnata ar gyfer eich busnes! Mae 'Grant Cymorth Marchnata' a ariennir gan Lywodraeth y DU trwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ei anelu at helpu busnesau trwy gynyddu mynediad at farchnata gan gynnwys gwasanaethau brandio, hysbysebu, dylunio gwefannau, argraffu a hysbysebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol hyd at werth o £300.

Gall pob busnes cychwynnol a mentrau bach gyda llai na 49 o gyflogeion yn yr economi sylfaenol fod yn gymwys i dderbyn y grant marchnata, i gefnogi hyrwyddo a datblygiad busnesau yn yr economi sylfaenol.

### YDYCH CHI'N YSTYRIED LLEOLI'CH BUSNES YNG NGHANOL PONT-Y-PŴL NEU FLAENAFON?

Os ydych chi'n sefydlu busnes newydd neu'n meddwl am symud i ganol tref Pont-y-pl (gan gynnwys y farchnad dan do) neu ganol tref Blaenafon, mae arian gan Lywodraeth y DU trwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gael i'ch helpu i fasnachu. Mae'r grant ar gael

i bob busnes cychwynnol a mentrau bach, ac mae'n cynnwys hyd ar ô mis o rent, trethi busnes a biliau cyfleusterau. Am ragor o wybodaeth am y grant cymorth marchnata a'r arian rhyddhad trethi busnes, danfonwch e-bost at: [Katie.Hancock@torfaen.gov.uk](mailto:Katie.Hancock@torfaen.gov.uk) i fynegi diddordeb. Amodau a thelerau'n berthnasol.

Cyllid ar gael i helpu  
**Hysbysebu eich busnes**  
Ymgeisiwch nawr\*

# BUSNESAU SY’N MANTEISIO AR DDIGIDOL YN PERFFORMIO’N WELL NA’R GWEDDILL



Cyflymu Cymru  
i Fusnesau  
Superfast  
Business Wales

Busnes Cymru | Business  
Wales

UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION  
Llywodraeth Cymru  
Welsh Government  
European Regional  
Development Fund  
Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop

## ABIGAIL HANNAH MAKEUP

Mae busnesau’n edrych am ragor o ffyrdd i gyfathrebu â chwsmeriaid ar-lein a chynyddu gwerthiant yn 2022. Mae technoleg wedi chwarae rôl hanfodol wrth helpu busnesau i addasu i ddigidol a thyfu eu presenoldeb ar-lein yn ystod y pandemig. Mae hyd at 41% o berchnogion busnesau bach yn dweud na fyddai eu busnesau wedi goroesi heb offer digidol, yn ôl y Centre for Economics and Business Research.

Fusnesau cymorth rhad ac am ddim i 1,097 o fusnesau i’w helpu i greu gwerthiant, arbed amser, gwneud y mwyaf o adnoddau a datblygu hyder digidol.

Roedd Abigail Hannah, perchennog Abigail Hannah Makeup yn Nhorfaen, yn un o’r rhain. Cynyddodd Abigail boddhad cwsmeriaid a chafodd mwy na 30 o archebion priodas yn 2021 drwy roi gweddnewidiad digidol newydd i’w gwefan.

“Yn fy marn i, roeddwn i’n meddwl mewn termau eithaf bychan ac y byddai’n cymryd llawer o amser i adeiladu’r busnes, ond gwnaeth Cyflymu Cymru i Fusnesau wneud i mi sylweddoli’r potensial,” meddai.

Gan sylweddoli dyfodol disglair **Abigail Hannah Makeup**, mae’r entrepreneur yn caniatáu ei hun i freuddwydio’n fawr, gyda chynllun tyfiant pum mlynedd ar waith.

Mae hi’n rhoi’r clod i Cyflymu Cymru i Fusnesau am ei helpu i dyfu’r busnes. “Nid wyf yn meddwl y byddwn yn y sefyllfa hon nawr heb y gefnogaeth a’r arweiniad gan Leon, fy ymgynghorydd busnes, a Chyflymu Cymru i Fusnesau,” dywedodd Abigail i orffen.

Eisiau tyfu’ch busnes a defnyddio digidol y Gwanwyn hwn? Peidiwch ag edrych ymhellach. Chwiliwch ar-lein: Cyflymu Cymru i Fusnesau neu **cysylltwch â ni** heddiw.

**GWNAETH CYFLYMU**

**CYMRU I FUSNESAU I MI**

**SYLWEDDOLI’R POTENSIAL**

Serch hynny, mae 39% o fusnesau bach yn teimlo wedi’u gorlethu gan y nifer o offer digidol sydd ar gael ac mae 32% eisiau defnyddio digidol mwy ond ddim yn sir sut i ddechrau neu ble i fynd am gyngor.

Efallai bod angen help llaw ar eich busnes i gael ei ddarganfod ar-lein, targedu’r gynulleidfa gywir, neu droi darpar gwsmeriaid yn gwsmeriaid ffyddlon. Y naill ffordd neu’r llall, mae tîm Cyflymu Cymru i Fusnesau yn barod i helpu, gyda gweminarau rhad ac am ddim a chyngor un-i-un wedi’i deilwra. Yn 2021, darparodd Cyflymu Cymru i

# Gweld manteision gweithlu oed-gynhwysol

Drwy Raglen Pobl Hŷn yn y Gweithle



## BUSNES YN Y GYMUNED (BITC) CYMRU: POBL HN YN Y GWAITH

Ni fu erioed yn fwy priodol i fusnesau gymryd camau i sicrhau bod diwylliant eu gweithle'n gadarnhaol a chefnogol, er mwyn denu, cadw a thyfu'r bobl orau i greu busnes llwyddiannus a chynaliadwy. Y garfan o bobl dros 50 oed yw'r gronfa dalent y manteisir leiaf arni gyda'i llu o wybodaeth, profiad a sgiliau i'w rhannu. Gall ddod â gwerth gwirioneddol i weithle aml-genhedlaeth.

Sefydliadau llwyddiannus yw'r rhai sy'n cymhathu oed-gynhwysoldeb yn eu strategaethau iechyd a lles ac amrywiaeth a chynhwysiant. Dyma'r busnesau sy'n gallu addasu ac ymateb i anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, gan fynd i'r afael yn uniongyrchol â materion allweddol yn y gweithle sy'n fwy tebygol o effeithio ar weithwyr hn, gan gynnwys: y menopos, cyfrifoldebau gofalu, lles ariannol, gweithio hyblyg, a chynllunio ar gyfer ymddeol.

Mae'r rhwydwaith busnes cyfrifol Busnes yn y Gymuned ac Age Cymru wedi dod ynghyd ar gyfer y rhaglen Pobl Hn yn y Gwaith sy'n cefnogi busnesau i helpu creu

diwylliant lle gall gweithwyr hn ffynnu. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda sefydliadau yng Nghymru i'w helpu i recriwtio, cadw a hyfforddi gweithlu oed-amrywiol.

Mae'r rhaglen Pobl Hn yn y Gwaith ar gael AM DDIM i fusnesau o bob maint a sector, diolch i gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ac mae'n cynnig yr adnoddau a'r cymorth ymarferol a restrir isod:

- Archwiliad syml o oed yn y busnes i amlygu cryfderau a nodi ble mae angen i fusnesau gymryd camau i greu gweithle mwy oed-gynhwysol
- Pecyn cymorth cyflogwyr oed-gynhwysol sy'n darparu awgrymiadau, argymhellion, enghreifftiau o arfer da a mwy
- Gweminarau adolygu canol gyrfa ar gyfer pobl dros 50, i'w helpu i fyfyrion am feysydd allweddol yn eu bywydau ac ystyried eu hopsynau, fel y gallant gymryd camau i sicrhau dyfodol cadarnhaol
- Rhwydwaith Dysgu Oed-gynhwysol lle gall eich busnes gysylltu ag eraill a dysgu wrthynt, trafod heriau, rhannu arfer gorau a datblygu cynllun gweithredu pobl hn

Ymunwch â busnesau eraill sy'n manteisio ar weithle oed-amrywiol a **dysgu mwy** â Jill Salter, Rheolydd Rhaglen Pobl Hn yn y Gwaith, BITC Cymru yn: [jill.salter@bitc.org.uk](mailto:jill.salter@bitc.org.uk)

MAE'R RHAGLEN YN GWEITHIO GYDA

SEFYDLIADAU YNG NGHYMURU I'W HELPU

I RECRIWTIO, CADW A HYFFORDDI

GWEITHLU OED-AMRYWIOL.